# CEFNOGI CYMUNEDAU LLEOL

Yn Lightsource bp rydym ni'n rhoi blaenoriaeth i weithio gyda chymunedau lleol. Mae pob fferm solar yn weithredol am hyd at 40 mlynedd, ac rydym yn awyddus i feithrin a chynnal perthynas fel cymdogion tymor hir. Gwnawn hyn mewn gwahanol ffyrdd:

- Digwyddiadau gwybodaeth
- Cyflogi a hyfforddi staff yn lleol
- Creu cynlluniau bioamrywiaeth er mwyn hybu bywyd gwyllt lleol
- Dyddiau agored a theithiau tywys o'n ffermydd solar gweithredol
- Darparu cronfeydd budd cymunedol lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol







20200420_PLN_UKW_D2

# CEFNOGI CYMUNEDAU LLEOL

**Mwy o wybodaeth am Gronfeydd Budd Cymunedol**
Pan fo cronfeydd budd cymunedol yn cael eu cynnig, bydd derbynwyr fel arfer yn cael un cyfandaliad, neu daliadau blynyddol. Mae'r rhai sydd wedi derbyn yn cynnwys grwpiau cymunedol sefydledig neu gynghorau, canolfannau cymunedol a grwpiau bywyd gwyllt.

Ers i ni gychwyn adeiladu ffermydd solar yn 2010, rydym ni wedi talu cyfanswm o fwy na £1,899,000 o gronfeydd budd cymunedol ledled y DU. Rydym yn hoffi cadw mewn cysylltiad â'r derbynwyr er mwyn gweld y ffordd y defnyddir ein cronfeydd budd i helpu a chefnogi'r cymunedau cyfagos i'n ffermydd solar

## Dyma rai o'r ffyrdd y defnyddiwyd ein cronfeydd budd:




**Fferm Solar Bolsovermoor Quarry, Cyngor Tref Old Bolsover, y DU**

- Diffibriliwr cymunedol mewn hen flwch ffôn
- Offer a man chwarae newydd yn y parc lleol
- Rhoddir coeden Nadolig i'r pentref bob blwyddyn, fe'i haddurnir gan y gymuned leol



**Fferm Solar Fields Farm, Tushingham, Cyfarfod Plwyf Macefen a Bradley, y DU**

- Trac rhedeg milltir ddyddiol wedi ei osod yn yr ysgol leol
- Gwell mynedfa i'r eglwys leol
- Cyllido 'Operation Shield', er mwyn i bob cartref yn y Plwyf gael cit marcio diogelwch ar gyfer eu heiddo er mwyn atal lladrad



**Fferm Solar Parsonage Wood, Cyngor Plwyf Pyworthy, y DU**

- Gwaith cynnal a chadw, offer chwarae a ffens ddiogelwch newydd i'r parc lleol
- Atgyweiriadau i'r system wres a thrydan yn yr eglwys leol
- Gwaith adnewyddu mawr i Neuadd y Pentref



**Fferm Solar Shaftesbury, Cyngor Plwyf Donhead St Mary, y DU**

- Paneli solar newydd i'r ysgol leol
- Diffibriliwr wedi ei osod yn y gymuned
- Dyfais dangos cyflymder wedi'i gosod
- Coed wedi eu plannu i goffáu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf
- Gwelliannau i'r cae chwarae lleol



**Fferm Solar Trevemper, Cyngor Plwyf Cubert, y DU**

- Paneli solar, nenfwd a system wresogi newydd i Neuadd y Pentref
- Atgyweiriadau i do'r eglwys leol a'r Neuadd goffa
- Deunyddiau a chymhorthion cof i'r Caffi Cof lleol
- Atgyweiriadau ac amddiffynfeydd môr ar gyfer Clybiau Syrffio Achub Bywyd lleol
- Dau ddiffibriliwr newydd i'r gymuned
- Offer ar gyfer clwb rhyngrwyd Silver Surfer
- Darparu cyflenwad dŵr cynaliadwy ar gyfer y gymdeithas randiroedd



**Fferm Solar Upper Clayhill, Cyngor Plwyf Barcombe, y DU**

- Gwelliannau i'r cyfleusterau criced lleol
- Offer ar gyfer y clwb garddwriaeth lleol
- Cyllid ar gyfer grŵp plant bach

20200420_PLN_UKW_D2